# Iesu'n cael ei demtio


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Roedd Iesu'n berson o gig a gwaed fel chi a fi ac roedd yn rhydd i wneud yr hyn sy'n dda ac yn gywir neu'r hyn oedd yn anghywir. Roedd Iesu wastad yn gwneud yr hyn oedd yn iawn.




Wedi iddo gael ei fedyddio gan Ioan Fedyddiwr yn afon yr Iorddonen aeth Iesu i'r diffeithwch am bedwar deg diwrnod a phedwar deg nos i dreulio amser ar ei ben ei hun yn dawel er mwyn gweddïo ac ymprydio.



Wedi pedwar deg diwrnod heb fwyd roedd Iesu'n llwgu. Awgrymodd y diafol y dylai Iesu ddefnyddio pŵer Duw i droi rhai o'r cerrig yn fara.



Ond gwrthododd Iesu a dywedodd, "Mae wedi ei ysgrifennu yn yr ysgrythurau bod mwy i fywyd person na bwyta'n unig. Mae gwir nerth a boddhad yn dod o ufuddhau i Air Duw."



Ceisiodd y diafol demtio Iesu unwaith eto. "Lluchia dy hun o le uchel oherwydd mae Duw wedi dweud y bydd yr angylion yn dy ddal di." Unwaith eto wnaeth Iesu ddim gwneud yr hyn roedd y diafol yn dweud wrtho ei wneud.



Dywedodd Iesu, "Mae wedi ei ysgrifennu, dwyt ti ddim i brofi yr Arglwydd dy Dduw." Roedd y diafol yn gwybod beth oedd gair Duw yn ei ddweud. Dewisodd Iesu wneud yr hyn oedd yn iawn. Does dim angen profi y Duw rwyt ti'n ymddiried ynddo.



Yna dangosodd y diafol bŵer a chyfoeth holl deyrnasoedd y byd i Iesu. "Fi sydd â phŵer y teyrnasoedd hyn ac fe wnaf ei roi i ti os wnei di blygu lawr a f'addoli i."



"Dos oddi wrthyf fi Satan," gorchmynnodd Iesu."Duw ydy'r unig un y dylid ei addoli." Fe wnaeth Iesu wrthsefyll temtasiwn a gwnaeth y dewisiadau cywir. Yna dechreuodd ddysgu a iacháu'r bobl.